Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru

05 Mehefin 2018

Annwyl Eluned,

## Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y ddadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 'Prentisiaethau yng Nghymru'[1] ar lawr y Cynulliad ar 9 Mai a'r drafodaeth ar y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth.

Nodwyd yn yr adroddiad ac yn ystod y ddadl fod y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn prentisiaethau yn isel, a bod ffactorau megis diffyg staff addysgol yn rhwystro cynnydd. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod y Llywodraeth yn dewis cyfuno'r data am ddysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a gydag elfen o'r Gymraeg wrth adrodd ar ddefnydd y Gymraeg yn y sector. Dywedoch ei bod hi'n bosibl astudio unrhyw brentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os oes galw, ond mai dim ond ychydig bach o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cyfle hwn. Dywedoch hefyd fod llawer o ddysgwyr yn dewis gwneud prentisiaethau'n ddwyieithog.

Mewn nodyn briffio[2] a gyhoeddais ym mis Tachwedd y llynedd amlygais y ffaith fod llawer o ffactorau yn debygol o effeithio ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn prentisiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg awydd gan ddysgwyr fel y nodoch ond mae ffactorau pwysig eraill yn ogystal. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg

[1] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s72280/Adroddiad%20PDF%20700kB.pdf
[2] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20171114%20C%20Nodyn%20briffio%20Prentisiaethau%20%282%29.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org


Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

argaeledd cymwysterau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a diffyg gweithlu addysg sy'n medru addysgu ac asesu yn y Gymraeg. Ategodd adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau rai o'r pwyntiau hyn, gan nodi bod 'bwlch o hyd rhwng y galw tebygol a'r gallu i gwrdd'.[3] Yng nghyd-destun y casgliadau hyn oll, nid wyf yn cytuno felly bod modd astudio unrhyw brentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os yw myfyrwyr yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal, buasai'n dda gennyf wybod barn y Llywodraeth ar effaith y camau i gynyddu defnydd y Gymraeg mewn prentisiaethau a gyflwynwyd o dan y cynllun 'Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru' (Chwefror 2017); a hefyd, oes bwriad i ddatblygu strategaethau pellach i fynd i'r afael â'r ystod o ffactorau eraill sy'n rhwystro cynnydd.

Buaswn hefyd yn gofyn ichi ystyried yr arfer o gyfuno'r data am ddysgu cyfrwng Cymraeg gyda data am ddysgu dwyieithog a gydag elfen o'r Gymraeg, mater a nodwyd yn y drafodaeth ar 9 Mai wrth gwrs. Gwnaethpwyd hyn, er enghraifft, wrth adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y sector dysgu seiliedig ar waith (ac addysg bellach) yn Adroddiad Blynyddol ar Strategaeth y Gymraeg 2016/17. Gallasai cyfuno'r categorïau hyn danseilio dibynadwyedd y data; glastwreiddio'r ystyr 'dwyieithog'; ac arwain at ddryswch o ran cynnydd gwirioneddol yn y sector. Codais bryderon tebyg mewn gohebiaeth at Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru ar 21 Chwefror eleni. Eto, roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod diffyg data cywir, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ei gwneud hi'n anodd mynd i'r afael â'r mater o'r bwlch rhwng y galw tebygol am brentisiaethau Cymraeg a'r gallu i gwrdd â'r gofyn[4].

Hyderaf y bydd fy sylwadau uchod o ddefnydd i chi. Buaswn hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod y pwyntiau yn ein cyfarfod nesaf.

Yn gywir



**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

[3] Ibid. t. 17
[4] Ibid. t.17

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Copi at:

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Bethan Sayed AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Lynne Neagle AC, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg